




Cod Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch - Cyngor ac Arweiniad



Egwyddor 1 - y cytunwyd arni gan y Sector
- Mabwysiadu ymagwedd strategol at reoli
ansawdd a safonau

Gorffennaf 2026



Cynnwys

Ynglŷn â'r Arweiniad hwn	3
Egwyddor 1 y Cytunwyd Arni gan y Sector - Mabwysiadu ymagwedd strategol at reoli ansawdd a safonau	5
Egwyddor 1 - Mabwysiadu ymagwedd strategol at reoli ansawdd a safonau academiaidd	6
Arfer Allweddol a - Cyfrifoldebau darparwyr am safonau academiaidd a sicrhau ansawdd	10
Cwestiynau myfyrio	12
Senarios	13
Arfer Allweddol b - Ymgorffori ymagwedd strategol at gynnal safonau a sicrhau ansawdd	15
Cwestiynau myfyrio	19
Senarios	20
Arfer Allweddol c - Alinio'r ymagwedd strategol at degwch, cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a chynaliadwyedd amgylcheddol	21
Cwestiynau myfyrio	27
Scenario	29
Arfer Allweddol d - Cyfathrebu'r ymagwedd strategol at gynnal safonau academiaidd a sicrhau ansawdd a'r fframwaith llywodraethu ategol	30
Cwestiynau myfyrio	39
Senarios	40
Arfer Allweddol e - Monitro a gwerthuso'r ymagwedd strategol	41
Cwestiynau myfyrio	44
Senarios	45
Arfer Allweddol f - Defnyddio arbenigedd allanol sustainability	46
Cwestiynau myfyrio	53
Senarios	54
Terminoleg	55
Aelodau'r grŵp ysgrifennu	59
Aelodau'r grŵp darllen	60

Ynglŷn â'r Arweiniad hwn

Cyd-destun

Mae'r Cyngor ac Arweiniad hwn yn cefnogi [Cod Ansawdd y DU](#) ac wedi'i gynllunio i ddadansoddi **Egwyddor 1 y Cytunwyd arni gan y Sector - Mabwysiadu ymagwedd strategol at reoli ansawdd a safonau** a'r Arferion Allweddol sy'n eistedd oddi tani. Fe'i cynhyrchwyd gan QAA mewn partneriaeth â grŵp ysgrifennu arbenigwyr sector ac mae wedi'i adolygu gan gymheiriaid gan gydweithwyr ar draws addysg uwch y DU. Mae hyn yn unol â'r ethos bod y Cod Ansawdd yn parhau i fod yn bwynt cyfeirio y cytunwyd arno gan y sector, wedi'i adeiladu ar ddealltwriaeth gyffredin o'r hyn y gall darparwyr ei ddisgwyl ganddynt eu hunain a'i gilydd wrth sicrhau a gwella ansawdd a chynnal safonau ar draws addysg ôl-uwchradd ledled y DU. Hoffai QAA ddiolch i'r grŵp ysgrifennu a'r darllenwyr cymheiriaid am eu cyfraniad amhrisiadwy wrth ddatblygu'r arweiniad hwn.

Mae nodyn cyd-destunol pwysig yn ymwneud ag amrywiaeth darparwyr addysg uwch yn y DU. Gall darparwyr fod yn brifysgolion mawr, yn gweithredu gyda seilwaith sylweddol, neu'n ddarparwyr arbenigol bach, yn gweithredu ar raddfa sylweddol lai, neu'n unrhyw nifer o fodolau gweithredu gwahanol eraill. Mae'r Cyngor ac Arweiniad wedi'i gynllunio i fod yn ddefnyddiol i bob darparwr (a chynrychiolwyr o amrywiaeth o ddarparwyr oedd yn ffurfio'r grwpiau ysgrifennu ac adolygu gan gymheiriaid), ond rydym yn cydnabod, ar adegau, y gallai'r gyfundrefn enwi a ddefnyddir awgrymu cyd-destun darparwr mwy. Mae'n bwysig bod pob darlennydd yn dehongli'r Cyngor ac Arweiniad yng nghyd-destun ei amgylchedd gweithredu ei hun a bod pob darlennydd yn cydnabod nad yw ansawdd ac unfurffedd yn gyfystyr.

Cwmpas

Mae'r Cyngor ac Arweiniad hwn yn annog darparwyr i fyfyrion ar eu harfer a'u prosesau mewn perthynas â'r Egwyddor y Cytunwyd arni gan y Sector. Nid yw dilyn y Cyngor ac Arweiniad yn orfodol, ond mae'n enghraifft o ddulliau a all helpu darparwyr i fodloni'r Egwyddor berthnasol. Nid yw rheoleiddwyr cenedlaethol a QAA yn ystyried y wybodaeth yn y Cyngor ac Arweiniad fel dangosyddion cydymffurfio. Nid yw'r arweiniad hwn yn dehongli gofynion statudol.

Yr iaith a ddefnyddiwn

Lle mae'r gair 'dylai' (neu unrhyw iaith gyfarwyddiadol debyg arall) yn ymddangos yn y Cyngor ac Arweiniad, mae hyn yn cynrychioli dealltwriaeth gyffredin o fewn cymuned addysg uwch y DU. Ar rai achlysuron gall sefydliad gyd-fynd â'r Egwyddor a Gytunwyd gan y Sector mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd, ac mewn achosion o'r fath gall sefydliad fod â dull gwahanol i'r hyn a nodir yma.

Yn y pen draw, er mwyn alinio â'r Cod Ansawdd, rhaid i sefydliad allu dangos sut mae'n bodloni'r Egwyddorion a Gytunwyd gan y Sector yn ymarferol. Ni ddylai unrhyw ddarparwr nac unigolyn deimlo bod y Cyngor ac Arweiniad yn rhagnodol neu'n amharu ar eu hymreolaeth na'u rhyddid.

Strwythur

Mewn ymateb i alw'r sector, mae'r Cyngor ac Arweiniad yn alinio'n uniongyrchol â'r Egwyddorion cyffredinol y Cytunwyd arnynt gan y Sector i ddarparu llywio clir rhwng y gwahanol elfennau. Mae'r arweiniad yn dechrau trwy ddadansoddi'r Egwyddor mewn cyd-destun gweithredol. Yna fe'i rhennir yn is-adrannau gan ganolbwyntio ar bob Arfer Allweddol gan amlinellu ystyriaethau a dulliau ymarferol i ddarparwyr feincnodi eu ffordd eu hunain o weithio. Mae hyn yn cynnwys awgrymiadau ymarferol a phrofiad a rennir gan ddarparwyr ar arfer gweithredol. Yn olaf, ym mhob is-adran mae offer i alluogi myfyrio ar yr arweiniad. Mae'r offer hwn yn cynnig y cyfle i archwilio sut olwg fyddai ar 'da' trwy gwestiynau myfyriol a senarios ymarferol sy'n galluogi cwestiynu arfer cyffredol gyda'r bwriad o wella ansawdd.

Termau a ddefnyddir yn gyffredin

Defnyddir y termau canlynol drwy gydol y Cyngor hwn. Rhestrir termau eraill sy'n elwa o ddiffiniad manwl gywir ar ddiwedd y ddogfen hon.

- **Myfyrwyr:** yn cyfeirio at bob unigolyn sy'n astudio tuag at ddyfarniad lefel uwch waeth beth fo'u demograffeg, dull cyflwyno, lefel astudio, maes pwnc, neu'r lleoliad daearyddol.
- **Darparwr:** yn disgrifio pob math o sefydliadau sy'n darparu dysgu ar lefel uwch, gan gynnwys prifysgolion, colegau, sefydliadau dysgu, a chyflogwyr. Rydym hefyd yn defnyddio 'sefydliad' mewn rhai achosion lle nad yw 'darparwr' o bosibl yn addas i'r cyd-destun.
- **Corff Cynrychiolwyr Myfyrwyr:** corff neu fecanwaith ffurfiol sy'n cynrychioli ac yn hyrwyddo buddiannau myfyrwyr. Gall hyn gael ei adnabod fel undeb myfyrwyr, cymdeithas myfyrwyr, neu urdd, neu wrth enw pwrpasol arall lle nad yw'r sefydliadau penodol hyn yn bodoli.



Egwyddor 1 y Cytunwyd Arni gan y Sector - Mabwysiadu ymagwedd strategol at reoli ansawdd a safonau

Mae darparwyr yn dangos bod ganddynt ymagwedd strategol at sicrhau safonau academiaidd a sicrhau a gwella ansawdd sydd wedi'i wreiddio ar draws y sefydliad.

Arferion Allweddol

- Cyfrifoldeb y darparwr yw safonau academiaidd ac ansawdd profiad dysgu myfyrwyr. Mae cyrff dyfarnu graddau'n ymwybodol mai nhw sy'n bennaf gyfrifol am y cymwysterau a gynigir yn eu henw.
- Defnyddir yr ymagwedd strategol lle bynnag a sut bynnag y caiff y ddarpariaeth ei chyflwyno ac mae wedi'i gwreiddio yn niwylant ac arferion darparwyr.
- Mae'r ymagwedd strategol o sicrhau safonau academiaidd, sicrhau ansawdd a gwelliant yn cael ei gyhoeddi, ei gyfathrebu'n glir ac yn hygyrch i staff, myfyrwyr a rhanddeiliaid allanol. Fe'i cefnogir gan fframwaith llywodraethu cynhwysfawr a thryloyw.
- Caiff yr ymagwedd strategol ei fonitro a'i werthuso'n rheolaidd.
- Mae arbenigedd allanol yn elfen allweddol o'r ymagwedd strategol o reoli ansawdd a safonau.



Egwyddor 1 - Mabwysiadu ymagwedd strategol at reoli ansawdd a safonau academiaidd

Mae darparwyr yn dangos bod ganddynt ymagwedd strategol at sicrhau safonau academiaidd a sicrhau a gwella ansawdd sydd wedi'i ymgorffori ar draws y sefydliad.

Beth a olygir gan 'ymagwedd strategol'

Mae goruchwyliaeth effeithiol yn hanfodol i ddealltwriaeth y darparwr o'i berfformiad, sut mae'n cefnogi profiad y myfyrwyr a sut mae'n amddiffyn safonau academiaidd. Mae'n sicrhau bod dull dilys, systematig, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar bob lefel o'r sefydliad, sy'n arwain at wybodaeth ansoddol a meintiol dryloyw, a ddefnyddir yn effeithiol i feithrin gwelliant, i ledaenu arfer da, ac i unioni problemau. Mae hyn yn galluogi'r darparwr i liniaru risgiau, i gydnabod ac ymdrin â heriau i ansawdd a safonau ac i ddyrannu adnoddau'n effeithiol ac yn gymesur i ymdrin â nhw.

Ansawdd a safonau

Mae darparwyr yn dangos ymrwymiad i'w cyfrifoldeb dros safonau academiaidd ac ansawdd profiad dysgu'r myfyrwyr drwy oruchwyliaeth effeithiol a strategol. Yn aml, caiff trefniadau ansawdd eu datblygu a'u gweithredu dros amser, gyda gweithgareddau sy'n gorgyffwrdd neu hyd yn oed yn gwrthdaro. Mae ymagwedd strategol yn wahanol drwy osod a rheoli ystod gydlynol o systemau, wedi'u mynegi mewn un lle.

Gall hyn fod ar ffurf fframwaith ansawdd clir, sy'n eiddo i'r darparwr ac yn cael ei weithredu ganddo at ddibenion hunanwerthuso, sicrhau ansawdd, a gwella.

Cenhadaeth a strategaeth

Er mwyn bod yn effeithiol, mae angen datblygu dulliau ansawdd yn strategol, gyda chysylltiadau clir â chenhadaeth a strategaeth gyffredinol darparwr. Dylai pob darparwr gael cynllun strategol, sy'n dogfennu eu strategaeth, ac yn nodi cyfeiriad y daith a gweithgareddau blaenoriaeth. Yn ddelfrydol, dylai'r strategaeth hon gynnwys cyflawni a chynnal ansawdd a safonau fel blaenoriaethau a fynegir yn glir.

Gellid mynegi hyn mewn gwahanol ffyrdd - gall y strategaeth nodi dull ansawdd sy'n cael ei arwain gan welliant, neu gallai ddatgan y dylid datblygu strategaeth sicrhau ansawdd ar wahân. Sut bynnag y caiff ei fynegi, dylai darparwr anelu at sicrhau bod pob offeryn ansawdd - gan gynnwys fframweithiau polisi, gweithgareddau, strwythurau llywodraethu a phrosesau - yn rhan o system integredig sy'n cefnogi cyflawniad effeithiol bwriad strategol y darparwr ac yn adlewyrchu effeithiolrwydd ac effaith barhaus.

Datblygu ymagwedd strategol

Ymagwedd strategol yw ymagwedd sefydliad cyfan (gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth a ddarperir gyda phartneriaid a/neu drwyddynt) at reoli safonau academiaidd ac ansawdd y profiad myfyriwr. Bydd perchenogion y strategaeth yn amrywio rhwng darparwyr, ond fel arfer bydd tîm gwasanaethau canolog sy'n gyfrifol am ansawdd yn datblygu'r ymagwedd strategol ac yn dod â hi drwy systemau cymeradwyo'r darparwyr. Bydd pennaeth y tîm hwn yn arwain ei ddatblygiad a gall y cyfranwyr gynnwys y Dirprwy Is-ganghellor dros Addysg neu swyddog cyfatebol, penaeithiaid timau sy'n casglu ac yn dadansoddi data, llywodraethu corfforaethol, ac uwch gydweithwyr o adrannau academiaidd. Yn nodweddiadol, bydd angen i'r strategaeth gael ei chymeradwyo'n ffurfiol gan lywodraethwyr y darparwyr.

Nodau a nodweddion allweddol ymagwedd strategol

Dylai ymagwedd strategol anelu at:

1. sicrhau bod gan y sefydliad olwg glir ar led ei ddarpariaeth a'i berfformiad ar ei draws, ei fod yn ymwybodol o'i gryfderau, pa weithgareddau sy'n cynhyrchu canlyniadau cadarnhaol, ac yn ceisio adeiladu ar hyn i wella'r ddarpariaeth
2. nodi ble mae heriau a chyfleoedd yn bodoli, a phan fydd heriau'n codi, galluogi camau gweithredu effeithiol i'w cymryd i fynd i'r afael â nhw
3. sicrhau bod y strwythurau sydd ar waith sy'n goruchwyllo pob maes ansawdd a safonau yn deall eu rolau, yn ogystal â phwysigrwydd ymgysylltu a herio gan bob aelod sy'n cynrychioli eu meysydd arbenigedd er mwyn osgoi meddwl-grŵp - hynny yw, yr arfer o feddwl neu wneud penderfyniadau fel grŵp, gan arwain fel arfer at benderfyniadau heb eu herio, o ansawdd gwael
4. rhoi hyder i'r corff llywodraethu (ac unrhyw grwpiau eraill sy'n ei gefnogi yn ei waith) bod y dystiolaeth a dderbynnir am ansawdd a safonau academiaidd yn gyflawn, yn gywir ac yn dryloyw mewn perthynas â'r dibenion y caiff ei defnyddio ar eu cyfer
5. sicrhau y gellir dibynnu ar y prosesau sicrhau ansawdd a ddefnyddir o dan y strategaeth i lywio arfer yn y dyfodol, a
6. nodi meysydd lle mae gwybodaeth/ adnabyddiaeth yn annigonol, yn enwedig mewn perthynas â risgiau i safonau ac ansawdd.



Mae nodweddion allweddol dulliau strategol effeithiol o reoli ansawdd a safonau yn cynnwys:

1. sefydlu systemau i sicrhau bod ansawdd a safonau academiaidd yn cael eu cynnal a bod gofynion rheoleiddio perthnasol yn cael eu bodloni, yn gymesur mewn perthynas â maint, natur (er enghraifft, monodechnegol; aml-bwnc) a strwythur sefydliadol a gweithredol (er enghraifft, wedi'i ganoli'n drwm neu wedi'i ddosbarthu) y darparwr
2. prosesau casglu tystiolaeth, dadansoddi a gweithredu sydd wedi'u teilwra i fesur perfformiad yn erbyn amcanion strategol y darparwr
3. nodi risgiau a fyddai'n effeithio'n andwyol ar ansawdd a safonau, yna ystyried y camau gweithredu sydd eu hangen i osgoi neu reoli'r risgiau hynny
4. sefydlu systemau ar gyfer casglu, ac yna gwneud defnydd effeithiol o, wybodaeth gyson (gan gynnwys dangosyddion perfformiad allweddol (DPA), adborth modiwlau, effeithiolrwydd ymyriadau penodol, perfformiad yn ôl nodweddion gwarchodedig), gan alluogi'r darparwr i wneud dyfarniadau a phenderfyniadau gwybodus a chredadwy
5. bod y prosesau sy'n casglu'r wybodaeth yn wrthrychol, yn ddibynadwy ac yn gymharol gymaradwy â darparwyr eraill yn y sector, gan roi canlyniadau sy'n helpu i gyflawni'r nodau uchod
6. gweithredu ar y wybodaeth a gasglwyd ar y lefel briodol yn y darparwr, dylai strwythurau llywodraethu alluogi creu cynlluniau gweithredu sy'n mynegi perchnogaeth yn glir a hefyd yn darparu goruchwyliaeth o gynnydd er mwyn gallu rhoi sicrwydd i'r corff llywodraethu o ymateb cymesur, effeithiol ac amserol.

Defnyddir mecanweithiau systematig sy'n:

1. mynegi'n glir mewn dogfennau (er enghraifft, rheoliadau, llawlyfr ansawdd, gweithdrefnau, a/neu fframwaith ansawdd) sy'n cael eu cymeradwyo trwy sianeli llywodraethu priodol, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, yn ymestyn i bartneriaid allanol a rhyngweithio â chyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddiol (PSRBs), ac sy'n hygyrch i'r holl staff a myfyrwyr
2. cael eu cefnogi trwy sefydlu staff a hyfforddiant parhaus sy'n mynegi, yn normaleiddio ac yn ymgorffori'r ymagwedd strategol o fewn diwylliant, meddylfryd ac arferion y darparwr (gweler Arfer Allweddol b)
3. nodi, dathlu, lledaenu a chefnogi arfer effeithiol ar draws y darparwr
4. sicrhau, lle nodir problemau, eu bod yn cael eu trin mewn ffordd amserol ac effeithiol, gan gynnwys pan fydd achosion unigol a/neu batrymau o achosion yn codi materion polisi neu arfer ehangach
5. annog dulliau newydd o newid tueddiadau mewn addysg, yn gyffredinol ac mewn cyd-destunau penodol i ddisgyblaethau
6. gallu bodloni gofynion rheoleiddio allanol, ymateb i newidiadau, a rhoi sicrwydd i'r darparwr eu bod yn cael eu bodloni.

Bod y dystiolaeth a gasglwyd wrth gynnal safonau a sicrhau ansawdd y profiad dysgu:

1. yn ddilys
2. yn gymesur â'i bwrpas
3. yn annibynnol wiriadwy
4. ni ellid ei drin wrth y ffynhonnell
5. yn cyd-fynd â mecanweithiau adrodd y cytunwyd arnynt, ac
6. yn bodloni dyletswyddau diogelu data cyfreithiol.

Mae enghreifftiau o dystiolaeth y gellir ei defnyddio i farnu ansawdd a safonau academiaidd yn cynnwys:

1. adroddiadau arholwyr allanol
2. adborth myfyrwyr drwy arolygon mewnol, rhaglenni a modiwlau
3. canlyniadau arolygon myfyrwyr, megis yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (NSS), yr Arolwg Profiad Ôl-raddedig a Addysgir (PTES) a'r Arolwg Profiad Ymchwil Ôl-raddedig (PRES)
4. data deilliannau myfyrwyr (a metrigau eraill yn ôl yr angen), o'i gymharu â meincnodau/dangosyddion perfformiad mewnol ac allanol
5. apeliadau a chwynion myfyrwyr
6. adroddiadau gan gyrff PSRBs a, lle bo'n briodol, partneriaid cyrff dyfarnu
7. perfformiad yn erbyn gofynion rheoleiddio ac adrodd cenedlaethol perthnasol
8. effaith unrhyw weithgareddau i sicrhau safonau academiaidd, megis hyfforddiant, mentrau dysgu ac addysgu, ac ymarferion calibradu
9. mentrau, arloesi ac arfer da.

Gallai allbynnau allweddol dull sicrhau ansawdd strategol gynnwys:

1. adroddiad blynyddol, myfyrio ar ddata, camau gweithredu ac effaith, wedi'i gefnogi gan ystod o ddata ansoddol a meintiol mewn atodiadau. Ystyrir yr adroddiad, sy'n canolbwyntio ar ansawdd a safonau'r sefydliad (gan gynnwys darpariaeth a ddarperir gan bartneriaid), yn ffurfiol ar lefelau gweithredol, rheoli a llywodraethu perthnasol o fewn y sefydliad
2. dadansoddiad systematig o adborth ansoddol, gan gynnwys llais myfyrwyr a sylwadau testun rhydd
3. dangosfwrdd amser real o fetrigau allweddol sy'n dangos y symudiad mewn canlyniadau, cyrhaeddiad a boddhad myfyrwyr, ac ansawdd y ddarpariaeth ac a all lywio penderfyniadau'r weithrediaeth, y rheolwyr a'r cyrff llywodraethu.



**Arfer Allweddol a -
Cyfrifoldebau darparwyr
am safonau academiaidd
a sicrhau ansawdd**

Arfer Allweddol a

Cyfrifoldebau darparwyr am safonau academiaidd a sicrhau ansawdd

Cyfrifoldeb y darparwr yw safonau academiaidd ac ansawdd profiad dysgu myfyrwyr. Mae cyrff dyfarnu graddau'n ymwybodol mai nhw sy'n bennaf gyfrifol am y cymwysterau a gynigir yn eu henw.

Dylai pob darparwr fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb deul i gynnal safonau academiaidd ac ansawdd profiad dysgu'r myfyrwyr.

Dylai darparwyr sicrhau eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau am safonau academiaidd ac ansawdd trwy ddull systematig, strategol. Bydd y manylion penodol yn cael eu llywio gan amrywiaeth o ffactorau (er enghraifft, maint y darparwr, cymysgedd disgyblaethau, strwythur sefydliadol a'r gofynion rheoleiddio cenedlaethol a rhyngwladol penodol y maent yn ddarostyngedig iddynt). Wrth ymrwymo i drefniadau partneriaeth, bydd darparwyr yn ystyried sut mae strategaethau, portffolios a gwerthoedd sefydliadau partner yn cyd-fynd â'u rhai eu hunain.

Cyrff dyfarnu graddau

Lle mae cyrff dyfarnu graddau yn gweithio gyda darparwyr eraill mewn trefniadau partneriaeth, dylai eu strategaethau gwmpasu prosesau sicrhau ansawdd priodol i fonitro ansawdd profiad dysgu'r myfyrwyr a sut mae safonau academiaidd yn cael eu cynnal gan ddarparwyr sy'n darparu ar eu rhan. Am fwy o wybodaeth am hyn, gweler [Egwyddor 8 Cyngor ac Arweiniad - Gweithredu partneriaethau gyda sefydliadau eraill](#).

Darparwyr heb bwerau dyfarnu graddau

Dylai darparwyr heb bwerau dyfarnu graddau ymgysylltu â'r corff dyfarnu graddau i sefydlu dull cytunedig o sicrhau safonau academiaidd ac ansawdd profiad dysgu'r myfyrwr, sy'n sicrhau bod darparwyr yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau rheoleiddio a chytundebol priodol.

Cwestiynau myfyrio

1. Sut mae ein corff llywodraethu yn gwybod bod gennym oruchwyliaeth effeithiol a strategol ar gyfer rheoli ansawdd a safonau sy'n rhoi sicrwydd i reoleiddwyr, myfyrwyr a rhanddeiliaid allanol?
2. Pa mor gadarn yw'r wybodaeth am ansawdd a safonau sydd gennym ar bob lefel o'r sefydliad? A ydym yn mabwysiadu dull ymwybodol o risg ac yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n systematig ac yn wrthrychol sy'n ein galluogi i ymchwilio'n fanwl i faterion yn hawdd ac yn gyflym?
3. Pa mor effeithiol ydym ni wrth ddefnyddio sylfaen dystiolaeth i nodi a lliniaru risg, dyrannu adnoddau i fynd i'r afael â bygythiadau i ansawdd a safonau ac i nodi a lledaenu arfer effeithiol?
4. Sut allwn ni roi sicrwydd i'r corff llywodraethu, drwy ddata ac adrodd, bod unrhyw risgiau amlwg i ansawdd a safonau profiad dysgu'r myfyriwr (a deilliannau cysylltiedig) yn cael eu nodi a'u rheoli'n effeithiol?
5. Sut allwn ni sicrhau ein bod ni'n osgoi peryglon 'meddwl-grŵp' yn y pwyllgorau hynny sy'n ystyried ansawdd a safonau academiaidd?
6. Sut ydym ni'n gwybod bod ein goruchwyliaeth o safonau academiaidd a phrofiad myfyrwyr yn briodol ar gyfer ein cyd-destun a'r amgylcheddau yr ydym yn gweithredu ynddynt? Mae hyn yn cynnwys newidiadau mewn demograffeg myfyrwyr, gofynion a disgwyliaid rheoleiddiol, yn ogystal â newidiadau addysgeg a thechnolegol, gweithio gyda phartneriaid, a chyfleoedd datblygol.
7. Beth yw'r ddealltwriaeth o'r rolau a'r cyfrifoldebau o fewn ein sefydliad mewn perthynas â safonau academiaidd ac ansawdd profiad dysgu myfyrwyr? Sut mae hyn yn cael ei ymgorffori a'i fonitro a sut mae rolau'n cael eu cefnogi?
8. Beth yw'r llinellau a'r mecanweithiau adrodd drwy ein sefydliad (ac o fewn partneriaid, lle bo'n berthnasol), o fodiwl, i lefel rhaglen, i'r corff llywodraethu? A ellir eu mynegi'n glir, a sut ydym ni'n gwybod eu bod yn effeithiol?

Cwestiynau myfyrio i ysgogi gwelliant

1. Sut ydym ni'n meithrin diwylliant gwella ansawdd cyfannol?
2. A yw pobl y tu hwnt i'r rhai sy'n gyfrifol yn uniongyrchol am wella ansawdd yn ei weld fel cyfrifoldeb pawb? Sut ydym ni'n gwybod?
3. Sut ydym ni'n gwerthuso effaith gweithgareddau gwella ansawdd yn rheolaidd, yn enwedig ar lefel sefydliadol?
4. Sut ydym ni'n nodi cyfleoedd a heriau newydd ac yn mynd i'r afael â nhw mewn ffordd ystwyth, fel Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol?

Senarios

Senario 1: Mae cyfarwyddwr anweithredol newydd yn cwestiynu'r wybodaeth a ddarparwyd i'r Bwrdd

Cyd-destun

Mae'r Cyfarwyddwr Anweithredol newydd yn gofyn i'r Cofrestrydd Academaidd am y wybodaeth y mae'r Bwrdd yn ei derbyn sy'n eu helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau sicrhau ansawdd.

Mae'r Cofrestrydd Academaidd yn egluro bod ystod o wybodaeth yn cael ei chasglu'n systematig i roi trosolwg i'r Bwrdd o sut maen nhw'n perfformio mewn perthynas ag ansawdd y ddarpariaeth, y rhaglenni maen nhw'n eu cynnal, y profiad myfyrwyr a safonau'r rhaglenni hynny. Mae'r Cofrestrydd yn mynd ymlaen i dynnu sylw at y ffaith mai un o'r prif nodau yw dangos eu bod nhw'n gyfwerth â rhaglenni eraill o'r fath yn y sector a'u cymharu â phwyntiau cyfeirio allanol fel y [Fframweithiau ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch \(FHEQ\)](#).

Er mwyn sicrhau bod yr adrodd yn gymesur ac yn hawdd ei amgyffred, anfonir tri phrif fewnbwn at y Bwrdd:

- adroddiad blynyddol yn crynhoi'r holl ffynonellau allweddol a materion sy'n codi
- cynllun gweithredu trosfwaol yn crynhoi gwaith adrannau i fynd i'r afael â materion a nodwyd yn flaenorol
- adroddiadau thematig unigol sy'n edrych ar fwy o fanylder, megis dadansoddi adborth myfyrwyr ar eu modiwlau.

Mae ffynonellau ar gyfer yr adroddiadau hyn yn cynnwys:

- adroddiadau arholwyr allanol (AA)
- canlyniadau'r NSS, adborth ar raglenni a modiwlau myfyrwyr
- adborth allanol ar ddyluniad cyrsiau, ac
- adroddiad blynyddol ar apelïadau a chwynion myfyrwyr, crynodeb achos gan yr ombwdsmon cwynion perthnasol, adroddiadau cyrff proffesiynol, ac adroddiad sy'n dangos sut mae eu gweithgareddau'n bodloni'r gofynion rheoleiddio sydd mewn grym yn y wlad yn y DU y maent yn gweithredu ynddi.

Mae'r Undeb Myfyrwyr yn rhan o ddatblygu adroddiadau, ac yna'n rhoi cyflwyniadau fel ffynhonnell dystiolaeth uniongyrchol ac annibynnol. Mae'r adroddiadau'n egluro arwyddocâd y metrigau ac a oes unrhyw faterion sy'n peri pryder. Cyflwynir yr adroddiadau'n fyw gan y prif awdur sy'n ateb cwestiynau a gall fynd i fwy o ddyfnder.

Ystyriaethau

- Sut mae ein gweithdrefnau adrodd yn cymharu â'r model hwn?
- Sut byddai materion newydd sy'n codi y tu allan i'r broses gylchol hon, megis methiant critigol i gydymffurfio â safonau cyrff proffesiynol, yn cael eu trin?
- A ellid gwneud yr adroddiadau'n fwy cyfredol, trwy ddefnyddio dangosfyrddau ar-lein sy'n adlewyrchu datblygiadau amser real mewn metrigau a DPA, er enghraifft?



**Arfer Allweddol b -
Ymgorffori ymagwedd
strategol at gynnal
safonau a sicrhau
ansawdd**

Arfer Allweddol b

Ymgorffori ymagwedd strategol at gynnal safonau a sicrhau ansawdd

Defnyddir ymagwedd strategol lle bynnag a sut bynnag y cyflwynir darpariaeth ac mae wedi'i wreiddio yn niwylliant ac arferion darparwyr.

Mae Arfer Allweddol b yn canolbwyntio ar gyflwyno darpariaeth gyda phwyslais ar weithredu ymagwedd strategol. Gellir gwneud hyn drwy fynegi, cynllunio a gwreiddio'r dull ar draws diwylliant ac arfer o fewn darparwr ac ar draws unrhyw drefniadau partneriaeth, gydag ymgysylltu â myfyrwyr a rhanddeiliaid yn elfen allweddol yn ei lwyddiant.

Mynegi'r ymagwedd strategol

Dylai mynegi ymagwedd strategol ddechrau yn yr offerynnau a'r dulliau strategol sylfaenol sy'n tywys y darparwr cyfan. Mae gan y rhan fwyaf o ddarparwyr ddatganiadau pwrpas, cenhadaeth, gweledigaeth a gwerthoedd. Er bod gan y rhain swyddogaethau ar wahân, maent yn gweithio gyda'i gilydd i osod a diffinio darparwr ar y lefel uchaf:

- Mae datganiad o ddiben yn egluro'r rhesymeg dros ymgyrch darparwr - ei reswm dros fodoli
- Mae datganiad cenhadaeth yn diffinio rhanddeiliaid darparwr, ei ffocws, ei amcanion craidd a'i ddull o gyflawni'r rhain
- Mae datganiad gweledigaeth yn diffinio i ble mae darparwr yn anelu a chanlyniad gwireddu uchelgeisiau strategol hirdymor a gwerthoedd sefydliadol. Dylai datganiadau gweledigaeth fod yn gydnaws â'r genhadaeth, trwy fynegi gyrwyr allanol a mewnol sy'n ysgogi uchelgeisiau strategol.

Y myfyriwr yn ganolog

Dylai'r offerynnau strategol hyn roi myfyrwyr a'u taith ddysgu yn benodol wrth wraidd holl waith y darparwr. Dylai pob gweithgaredd strategol raeadru o'r rhain, yn enwedig y datganiad gweledigaeth sy'n gosod yr uchelgeisiau strategol ar gyfer cyfnod penodol. Mae'r offerynnau hyn yn canolbwyntio ar flaenoriaethau sefydliadol a gweithgareddau allweddol, a dylent hefyd osod cyfeiriad teithio clir mewn perthynas ag ansawdd a safonau.

Diffinio'r cynllun sefydliadol

Yn aml, caiff y weledigaeth ei throsi'n gynllun strategol sefydliadol ar wahân sy'n mynegi'r uchelgeisiau a'r blaenoriaethau strategol y mae'r darparwr yn ceisio eu cyflawni mewn perthynas â chynnal neu wella ansawdd a safonau. Mae'r holl ddogfennau hyn yn rhan o'r ymagwedd strategol ac yn darparu pwynt ffocal sy'n diffinio'r hyn y mae darparwr am ei gyflawni a sut.

Mae'r datganiadau pwrpas, cenhadaeth a gweledigaeth yn helpu i sefydlu cyrchfan y darparwr, tra dylai'r cynllun strategol osod disgwyliadau ar gyfer metrigau i sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau i fod yn unol â'u huchelgeisiau, amcanion a chyfrifoldebau.

Cynllunio strategol

Mae llunio cynllun strategol effeithiol yn fecanwaith pwysig a all dynnu ynghyd feysydd allweddol a gweithgareddau sicrwydd sy'n adeiladu proses gwneud penderfyniadau cadarn sy'n cael ei llywio gan ddata, gweithgareddau monitro a gwerthuso. Bydd proses gynllunio strategol gadarn yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr feddwl ymlaen a gweithredu lefel o fonitro sy'n briodol iddynt.

Y tair cydran allweddol i'w hegluro trwy gynllunio strategol yw dangosyddion perfformiad, prosesau strategol, ac amcanion. Bydd y cydrannau hyn yn creu sgaffald sy'n cefnogi:

- Cynnydd: sgaffald cydlynol o fetrigau a gwybodaeth sy'n galluogi monitro, gwerthuso ac adolygu darpariaeth strategol yn erbyn ansawdd a safonau
- Methodoleg: prosesau strategol sy'n hwyluso ac yn cefnogi gwneud penderfyniadau mewnol a blaenoriaethu i sicrhau cynnal ansawdd a safonau
- Cyflawni: yn galluogi darparwr i dynnu cysylltiadau rhwng gweithgareddau gwella profiad myfyrwyr a gwelliannau mesuradwy mewn canlyniadau NSS/PTES/PRES, gan helpu i gefnogi diwylliant lle mae pawb yn cael eu hannog yn weithredol i gyfrannu at ansawdd a safonau.

Gwreiddio ymagwedd strategol, gyfannol

Rhoddir llawer o weithgareddau ar waith gan ddarparwyr i reoli ansawdd a safonau. Diffinnir y cydrannau hyn gan bob darparwr i adlewyrchu eu hunaniaeth unigryw, strwythur sefydliadol, amgylchedd gweithredol ac uchelgeisiau. Gellir eu defnyddio ar draws lefelau lluosog darparwr, neu eu defnyddio mewn gwahanol dimau, adrannau, ysgolion neu gyfadrannau. Yn nodweddiadol maent wedi cael eu gweithredu dros amser mewn modd tameidiog.

Fodd bynnag, mae dull strategol o gynnal safonau a sicrhau ansawdd yn gofyn am ddull darparwr cyfan. Nid yw wedi'i gyfyngu i wasanaethau academiaidd neu broffesiynol penodol. Mae diwylliant ac arfer yn cael eu datblygu a'u harwain gan bobl ar sawl lefel o fewn darparwr, er enghraifft, y cyfrifoldeb ar y cyd wrth ymgymryd â gweithgareddau gwerthuso.

Nid yw llawer o weithgareddau sy'n sicrhau neu'n cynnal ansawdd a safonau darpariaeth yn ymwneud ag ansawdd academiaidd yn unig. Mae cysylltiad agos rhwng cyflwyno darpariaeth, profiad dysgu, adolygiadau, polisi, arferion, llywodraethu, gwelliannau a sicrhau ansawdd ag ystod eang o wasanaethau proffesiynol ac mae angen prosesau a all fod y tu allan i'r cylch gwaith academiaidd yn aml. Ar yr un pryd, bydd rhai polisiâu a phrosesau yn cael eu gweithredu gan adrannau lleol, ac efallai na fydd eu canlyniadau bob amser yn weladwy i'r rhai sy'n bennaf gyfrifol am ansawdd a safonau.

Ymgysylltu â myfyrwyr a rhanddeiliaid

Er mwyn gwreiddio diwylliant ac arfer ar draws darparwr, mae angen ymgysylltu â rhanddeiliaid lluosog i sicrhau ei effeithiolrwydd. Dim ond mewn partneriaeth â myfyrwyr, staff, a rhanddeiliaid allanol perthnasol y gellir meithrin hunaniaeth ddiwylliannol fel sy'n briodol i'r darparwr - megis cymunedau, diwydiant - ac nid eu gorfodi arnynt.

O fewn darparwr, mae angen ymgysylltu â myfyrwyr llawn gan y corff myfyrwyr na ellir ei ystyried yn weithgaredd ar wahân. Os nad yw myfyrwyr yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys yn null y darparwr o ran ansawdd a safonau, yna ni fydd yn cael ei wreiddio'n gywir.

Rhanddeiliaid eraill

Bydd grwpiau rhanddeiliaid eraill yn ddibynnol ar y sefydliad ond gallent gynnwys cyrff PSRB, proffesiynau, grwpiau/unigolion dinesig, sefydliadau lleol (er enghraifft, byrddau iechyd lleol, asiantaethau datblygu rhanbarthol), diwydiannau/cyflogwyr lleol a'r cyhoedd yn ehangach. Lle gall darparwr ddangos effaith allanol, cydnabyddiaeth a chydabod bod ganddo ddull ansawdd cadarn sy'n cael ei arwain gan welliant wrth ei wraidd, bydd yr enw da hwnnw'n cael ei fwydo'n ôl drwy'r sefydliad ac yn llifo allan i bartneriaid allanol.

Er enghraifft, bydd darparwr sy'n dangos tystiolaeth o ansawdd ac yn ei ymgorffori yn ei ddiwylliant yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi gan gyflogwyr allanol a fydd yn awyddus i gyflogi graddedigion gan wybod bod cysondeb o ran cymhwyso ansawdd a safonau ac felly yn ansawdd cynaliadwy'r graddedigion hynny. Gweler Arfer Allweddol d am ragor o wybodaeth am gyfathrebu'r ymagwedd strategol.

Cwestiynau myfyrion

1. Sut ydym ni'n mynegi ein hymagwedd strategol at reoli ansawdd a safonau yn glir? Sut ydym ni'n gwybod bod yr ymagwedd strategol yn cael ei ddeall yn dda gan randdeiliaid allweddol ar bob lefel ar draws y sefydliad?
2. Sut ydym ni'n monitro'r fframweithiau a'r systemau llywodraethu sydd ar waith i sicrhau effeithiolrwydd parhaus ein dulliau o reoli ansawdd a safonau?
3. Sut mae ein corff llywodraethu yn deall ac yn mynegi dull y darparwr o reoli ansawdd a safonau?
4. Sut ydym ni'n sicrhau bod systemau llywodraethu yn ymatebol i ddatblygiadau newydd/annisgwyl?
5. Pa lefel o hyder fyddem ni'n ei roi ar y dull sefydliadol yn cael ei ymgorffori ar draws pob safle, pob dull cyflwyno ac unrhyw bartneriaid cydweithredol? Os nad oes llawer o hyder mewn unrhyw leoliad/modd yna archwiliwch ymhellach a chywirwch.
6. Beth fyddai myfyrwyr yn ei ddweud pe gofynnwyd iddynt pa mor ymgorfforedig yw diwylliant ansawdd ar draws eu rhaglen neu adran o fewn y sefydliad? Sut olwg sydd arno o'u safbwynt nhw? A ydynt yn ystyried eu hunain yn bartneriaid wrth ddatblygu'r dulliau hyn ac wrth eu hymgorffori mewn diwylliant ac arfer?
7. Pe bai rhywbeth yn mynd o'i le (mewn perthynas â rheoli ansawdd a safonau) pwy fyddai'n gwybod yn gyntaf a beth fyddent yn ei wneud? A oes diwylliant lle gellir codi pryderon yn agored heb ofni cael eu beio?

Cwestiynau myfyrion i ysgogi gwelliant

1. Sut mae ein dulliau o ymgorffori ein strategaeth ansawdd a safonau yn annog rhannu arfer da ar draws y sefydliad i feithrin gwelliant?
2. Sut mae gwelliant yn cael ei sicrhau yn eich sefydliadau partner cydweithredol?
3. A yw staff wedi'u grymuso i siarad am feysydd y gellid eu gwella, ac arwain ar atebion?

Senarios

Senario 1: Mae darparwr yn agosáu at adolygiad allanol pum mlynedd sy'n seiliedig ar welliant ac mae'n ofynnol iddynt ddangos bod eu hymagwedd strategol at reoli ansawdd a safonau wedi'i wreiddio yn niwylliant ac arfer y sefydliad a bod y dull yn cael ei ddefnyddio lle bynnag a sut bynnag y caiff ei gyflwyno

Cyd-destun

Mae'n ofynnol i ddarparwr ddangos bod ei ymagwedd strategol o reoli ansawdd a safonau wedi'i wreiddio mewn diwylliant ac arfer, lle bynnag a sut bynnag y cyflwynir ei gyrsiau. Caiff y darparwr ei adolygu gan gymheiriaid gan asiantaeth allanol, ac mae'n ofynnol iddo gyflwyno dogfen hunanasesu gydag ymateb ar wahân neu gyfunol gan y Corff Cynrychiolwyr Myfyrwyr (SRB) cyn ymweliad. Dros gyfnod o bedwar diwrnod bydd panel adolygu cymheiriaid yn cyfarfod â'r Is-Ganghellor, yr uwch-dîm, staff a myfyrwyr.

Cyn yr ymweliad, mae'r darparwr yn ymgysylltu â'r SRB ac yn penderfynu ar ddull cydweithredol o ymdrin â'r cyflwyniadau ymlaen llaw, gan blethu'r naratif gan y darparwr â llais y myfyriwr. Mae'r ymagwedd strategol o weithio mewn partneriaeth mewn perthynas ag ansawdd a safonau wedi'i wreiddio a'i fynegi'n glir, sy'n cael ei gydnabod gan y panel.

Cododd un maes i'w ddatblygu yn ystod y paratodau ar gyfer yr adolygiad. Mynegodd myfyrwyr wahaniaethau mewn arferion rhwng ysgolion a rhaglenni, ac nid oedd staff yn ymwybodol o rai ohonynt. Drwy'r broses adolygu, dysgodd y darparwr fod myfyrwyr yn fonitoreaidd rhagorol o amrywiad mewn arfer ar draws sefydliad gan eu bod yn siarad â'i gilydd yn fwy na rhai staff gwasanaethau academiaidd neu broffesiynol.

Ystyriaethau

- Sut gall y darparwr hwn ddangos bod diwylliant o 'ansawdd sy'n gyfrifoldeb i bawb' wedi'i wreiddio?
- Sut gallai'r darparwr hwn fynd i'r afael â'r amrywiadau mewn arferion rhwng ysgolion a rhaglenni a nodwyd gan fyfyrwyr?
- Pa ymchwiliadau pellach a allai fod yn ofynnol i sefydlu a yw'r amrywiad hwn yn effeithio ar ansawdd y ddarpariaeth a'r profiad?



**Arfer Allweddol c - Alinio'r
ymagwedd strategol at
degwch, cydraddoldeb,
amrywiaeth, cynhwysiant
a chynaliadwyedd
amgylcheddol**

Arfer Allweddol c

Alinio ymagwedd strategol at degwch, cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a chynaliadwyedd amgylcheddol

Mae'r ymagwedd strategol yn cyd-fynd â pholisïau ac arferion darparwyr at degwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a chynaliadwyedd amgylcheddol i fyfyrwyr a staff.

Mae alinio sicrhau ansawdd â gwaith o amgylch tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EEDI) a chynaliadwyedd amgylcheddol yn helpu i sicrhau bod prosesau fel cymeradwyo cwricwlwm, gwella, recriwtio a chadw hefyd yn cyfrannu at y gwaith hwn.

Dylai darparwyr ystyried dulliau strategol wedi'u teilwra i ymgorffori EEDI a chynaliadwyedd amgylcheddol fel galluogwr allweddol o gynnal safonau a gwella ansawdd o fewn amgylcheddau dysgu a gweithio cynaliadwy. Gall hyn gynnwys:

- cael strategaeth sy'n ymrwymo i ymgorffori EEDI a chynaliadwyedd o fewn y cwricwlwm, y profiad dysgu a thaith y dysgwr, a gosod fframwaith ar gyfer sut i'w gyflawni
- adolygiadau polisi rheolaidd ar gyfer cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol lle bynnag y mae'r darparwr neu ei bartneriaid yn gweithredu, megis Deddf Cydraddoldeb 2010 fel y mae'n berthnasol ym mhob gwlad yn y DU, a safonau amgylcheddol megis [Nodau Datblygu Cynaliadwy \(SDGs\) y Cenhedloedd Unedig](#)
- ymgorffori a modelu cynrychiolaeth amrywiol mewn rolau arwain
- mentora i rymuso pob aelod o gymuned y partner cydweithredol i dyfu
- ymgysylltu â myfyrwyr, staff a rhanddeiliaid allanol perthnasol trwy, er enghraifft, ymgynghoriadau a gwaith partneriaeth myfyrwyr
- hyfforddiant, hyfforddi, a chreu diwylliant lle mae adborth yn cael ei annog a'i weithredu gan ddefnyddio fforymau a gwahanol sianeli adborth
- rolau pwrpasol a chyfrifoldebau diffiniedig ar gyfer arwain EEDI a chynaliadwyedd ar bwyntiau allweddol mewn strwythurau rheoli a staff, wedi'u teilwra i'r maint, a
- gweithio tuag at fwy o hygyrchedd a chael gwared ar rwysrau i gyfranogiad mewn addysg uwch.

Dull gweithredu pob dydd

Yn weithredol, mae ymagwedd strategol yn canolbwyntio ar integreiddio EEDI a chynaliadwyedd i wneud penderfyniadau bob dydd, gan greu amgylchedd cynhwysol sy'n hyrwyddo'r ddau. Gellir adolygu arferion yn rheolaidd ar lefel strategol i sicrhau eu bod yn ddeinamig ac yn effeithiol. Gall hyn wneud EEDI a chynaliadwyedd yn rhan annatod o hunaniaeth y darparwr, wedi'u gwehyddu i'w DNA.

Mae hyn yn helpu i greu diwylliant lle mae staff a myfyrwyr yn modelu'r egwyddorion hyn yn weithredol ar draws y sefydliad, gan ddangos a rhoi tystiolaeth o ymrwymiad i newid ystyrlon a systemig. Bydd angen i wahanol fathau o ddarparwyr, fel prifysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant eraill, deilwra eu dulliau i gyd-fynd â'u strwythurau sefydliadol.

Diffinio a gwreiddio dulliau EEDI a chynaliadwyedd

Mae'n bwysig diffinio a mynegi'n glir weledigaeth a chenhadaeth sefydliadol ynghylch EEDI, a chynaliadwyedd amgylcheddol (gweler Arfer Allweddol b). Bydd hyn yn gwasanaethu fel egwyddor arweiniol ar gyfer pob strategaeth a pholisi sy'n deillio ohonynt ac yn galluogi amcanion mesuradwy i gael eu sefydlu sy'n cyd-fynd â'r gwerthoedd craidd hyn i sicrhau atebolrwydd.

Cam pellach fyddai alinio â pholisïau eraill a allai gael dylanwad anuniongyrchol ar ansawdd

- megis Recriwtio a Derbyniadau, Datblygu Staff a Datblygiad Proffesiynol Parhaus, Partneriaethau, Caffael (lle mae angen is-gontractio), Gwerthusiad Myfyrwyr
- gyda'u strategaethau a'u harweiniad ar EEDI a chynaliadwyedd amgylcheddol

Trosolwg

Fel arfer, mae gan ddarparwyr bwyllgorau sefydledig, rhwydweithiau staff a myfyrwyr, gweithgorau neu grwpiau llywio sy'n delio â'r materion hyn ar lefel strategol i sicrhau cysondeb, cydlynid a helpu i osgoi dulliau tameidiog. Gellir gwirio cymeradwyaethau a chyfathrebiadau polisi am gysondeb yn unol â nodau EEDI a chynaliadwyedd amgylcheddol a nodau strategol. Mae gan bob darparwr ofyniad cyfreithiol i gadw at ddeddfwriaeth gwrth-wahaniaethu (yn bennaf, ond heb fod yn gyfyngedig i, Ddeddf Cydraddoldeb 2010).

Gall pwyllgorau EEDI helpu timau ansawdd a chyrsiau i nodi a mynd i'r afael â rhwystrau'n gynnar, a sicrhau bod adborth myfyrwyr ar gynhwysiant a phryderon amgylcheddol yn bwydo i welliannau ansawdd parhaus. Er mwyn osgoi dulliau tameidiog, gall pwyllgorau hefyd sefydlu a goruchwyllo gweithgorau a rhwydweithiau, megis:

- Rhwydweithiau staff a myfyrwyr: manau a chyfleoedd i greu cymuned sy'n cynrychioli safbwyntiau amrywiol i sicrhau diwylliant cynhwysol a all wneud argymhellion ar faterion allweddol
- Grŵp gwella'r cwricwlwm: yn sicrhau cynllun cwricwlwm cynhwysol, yn ymgorffori safbwyntiau amrywiol ac yn grymuso myfyrwyr i herio anghydraddoldebau systemig
- Grŵp llywio cynaliadwyedd: yn alinio gweithrediadau sefydliadol, cwricwlwm ac ymgysylltu â myfyrwyr â thargedau cynaliadwyedd amgylcheddol.

Gweithredu a hyrwyddo

Mae llawer o garfannau myfyrwyr eu hunain yn llai na delfrydol o ran eu hamrywiaeth - pynciau STEM, er enghraifft. Fel arfer bydd gan ddarparwyr fentrau ar waith i fynd i'r afael â hyn. Gall darparwyr hefyd geisio, lle bo modd, sicrhau bod amrywiaeth ei weithlu yn adlewyrchu amrywiaeth ei gorff myfyrwyr neu'r amrywiaeth y mae'n anelu at ei chreu. Gellid adlewyrchu'r dyheadau hyn hefyd mewn dylunio cwricwlwm cynhwysol a gwelliant parhaus, gan lunio cwricwlwm sy'n adlewyrchu safbwyntiau amrywiol ac yn mynd i'r afael â rhwystrau systemig i sicrhau bod pob myfyriwr yn cyflawni ei botensial ac yn teimlo ymdeimlad o berthyn.

Mae hyn yn golygu cofleidio safbwyntiau a barnau amrywiol a sicrhau amrywiaeth ddigonol mewn dulliau dysgu, addysgu ac asesu i ddiwallu anghenion cymuned academiaidd, broffesiynol a myfyrwyr y darparwr. Yn ogystal, dylai myfyrwyr allu cael mynediad at y cwricwlwm a theimlo eu bod wedi'u grymuso i herio anghydraddoldebau systemig. Fodd bynnag, dylai'r ymrwymiad i gynhwysiant a chynaliadwyedd fynd y tu hwnt i ddysgu ffurfiol, yn y nodau a'r ymddygiadau a fodelwyd drwy gydol arfer strategol a dyddiol y darparwr.

Wrth weithredu dull newydd, gall darparwyr ystyried treialu polisiau neu offer newydd, er enghraifft systemau rheoli data newydd a strategaethau asesu newydd, mewn rhaglenni neu feysydd penodol cyn eu cyflwyno'n llawn.

Gweithgaredd parhaus

Dylai darparwyr ystyried amrywiaeth o brosesau sy'n annog cydweithio gweithredol, parhaus ar draws y sefydliad wrth lunio a gwella ansawdd a safonau sy'n ymwneud ag EEDI a chynaliadwyedd amgylcheddol. Gall dadansoddi data i lywio gwelliant effaith cydraddoldeb, megis canlyniadau, cyrhaeddiad, cadw a phresenoldeb, arwain at drafodaethau cyfoethog rhwng staff a myfyrwyr trwy grwpiau ffocws a fforymau trafod, gan archwilio materion cymhleth, annog deialog a chyd-destun dyfnach o amgylch themâu adborth.

Gwahodd adborth

Yn ogystal â staff a myfyrwyr, mae'n bwysig ystyried adborth gan gyflogwyr a phartneriaid yn y diwydiant, mae hyn yn arbennig o berthnasol ar gyfer hyfforddiant galwedigaethol a phrentisiaethau, wrth sicrhau bod EEDI a chynaliadwyedd amgylcheddol wedi'u cynllunio'n briodol yn y cwricwlwm, briffiau asesu a chymorth lleoliadau, gan gyd-fynd â disgwyliadau'r byd go iawn. Gellir cyflawni hyn trwy fyrddau cynghori, cyfarfodydd llai neu arolygon. Gallai darparwyr ystyried arolygiadau ffug a/neu adolygiadau cymheiriaid allanol i efelychu arolygiadau corff rheoleiddio/proffesiynol neu arddull matrices a all helpu i feicnodi yn erbyn disgwyliadau disgyblaeth a sector.

Cadw sgiliau'n gyfredol

Mae hyfforddiant a gwella sgiliau rheolaidd ar EEDI a chynaliadwyedd amgylcheddol yn sicrhau dull cydweithredol wrth fonitro, sicrhau tryloywder a chynnydd tuag at EEDI ac SDGs y Cenhedloedd Unedig, yn ogystal ag agendâu cenedlaethau'r dyfodol ar draws y DU. Yn aml, mae darparwyr yn integreiddio cynaliadwyedd amgylcheddol i weithrediadau campws, megis adeiladau sy'n effeithlon o ran ynni, lleihau gwastraff, a strategaethau carbon niwtral - gweler Egwyddor 3 am ragor o arweiniad ar adnoddau.

Ymgorffori yn y cwricwlwm

Mae ymgorffori cynaliadwyedd yn y cwricwlwm yn codi ymwybyddiaeth, yn ymateb i ddisgwyliadau myfyrwyr ac yn meithrin diwylliant o gyfrifoldeb a chydweithrediad, gan fod myfyrwyr wedi ymrwymo'n ddwfn i EEDI a chynaliadwyedd amgylcheddol. Gall partneriaethau â sefydliadau lleol a byd-eang annog ymgysylltiad cymunedol, gwella ansawdd y profiad dysgu, a hyrwyddo ethos dinasyddiaeth fyd-eang. Mae nodi partneriaid priodol i weithio gyda nhw yn arbennig o bwysig, gan ystyried yn benodol lwyddiant blaenorol posibl ar EEDI a chynaliadwyedd wrth benderfynu a ddylid ymrwymo i gytundeb.

Wrth ymgorffori'r arfer hwn, efallai y bydd darparwyr eisiau ystyried y prosesau gweithredol canlynol sydd gyda'i gilydd yn rhoi trosolwg strategol:

Tabl 1: Gweithgareddau EEDI a syniadau ar gyfer ymarfer

Gweithgaredd	Syniadau ar gyfer ymarfer
Datblygu model hyrwyddwyr myfyrwyr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) a Nodau Datblygu Cynaliadwy (SDG).	Grymuso hyrwyddwyr myfyrwyr a staff i eiriol dros SDGs amgylcheddol a mentrau EEDI.
Sefydlu gweithgorau cynaliadwyedd.	Ffurfio grwpiau i yrru mentrau cynaliadwyedd ac alinio ymdrechion ar draws y darparwr. Grwpiau staff yn bennaf, ond bydd cynnwys myfyrwyr yn dod â manteision gwirioneddol.
Sefydlu pwyllgorau EEDI canolog a lleol.	Sefydlu pwyllgorau i drafod a goruchwyllo materion yn ymwneud â thegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
Prosesau tryloyw i ddatblygu ac adolygu polisïau.	Sicrhau bod polisïau, gweithdrefnau ac arferion sefydliadol yn cael eu craffu ar lefel strategol.
Ymrwymiad a chydweithrediad gan reolwyr ac arweinwyr ar bob lefel o fewn y darparwr.	Ennill ymrwymiad gan yr arweinyddiaeth i flaenoriaethu EEDI a chynaliadwyedd.
Disgwyliadau clir a thryloywder wrth wneud penderfyniadau.	Sicrhau bod pob penderfyniad yn cael ei wneud yn dryloyw, gan ymgorffori EEDI a chynaliadwyedd wrth wraidd hynny.
Adnoddau ar gyfer cymorth ychwanegol.	Dyrannu adnoddau i ddiwallu anghenion cymorth ychwanegol ar gyfer EEDI a nodau cynaliadwyedd. Gweler Egwyddor 3.

Gweithgaredd	Syniadau ar gyfer ymarfer
Hyfforddiant ar gyfer dylunwyr a chymeradwywyr cwricwlwm.	Mae'r rhai sy'n ymwneud â dylunio a chymeradwyo'r cwricwlwm yn cael hyfforddiant ar ymgorffori cynwysoldeb a chynaliadwyedd yn y cwricwlwm.
Bod yn weladwy wrth ddangos ymrwymiad (gweithredoedd, nid geiriau).	Mae gwelededd clir a dangosadwy mewn ymgysylltu â mentrau i gefnogi cynhwysiant a chynaliadwyedd, yn fewnol ac yn allanol, megis cymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau a darparu adnoddau teg.
Dadansoddiad o ganlyniadau myfyrwyr ac uniondeb academiaidd.	Mae monitro parhaus ac amserol o fetrigau perfformiad allweddol yn erbyn metrigau EEDI i ganlyniadau staff a myfyrwyr, er mwyn nodi unrhyw ganfyddiadau anghymesur yn erbyn grwpiau penodol o fyfyrwyr mewn achosion Deallusrwydd Artiffisial, a chymryd camau gweithredu'n unol â hynny.
Gweithredu asesiadau effaith cydraddoldeb.	Ar gyfer polisïau, gweithdrefnau a rheoliadau newydd arwyddocaol, er mwyn nodi canlyniadau anfwriadol i grwpiau o fyfyrwyr.
Cyflawni a chynnal achrediad allanol.	Er enghraifft, Siarter Athena Swan i gefnogi a thrawsnewid cydraddoldeb rhywiol.

Cwestiynau myfyrion

1. A oes gennym strategaeth sefydliadol sy'n ymgorffori ein dyheadau ar gyfer EDI a chynaliadwyedd gyda chanlyniadau mesuradwy?
2. A yw ein polisiâu a'n harferion ar gyfer monitro a gwerthuso ansawdd a safonau yn ymgorffori egwyddorion EDI?
3. Pa rai o'n prosesau sy'n ein galluogi i fesur a galluogi ein cynnydd o ran EDI a chynaliadwyedd amgylcheddol?
4. Sut ydym ni'n monitro a oes gor-gynrychiolaeth o rai grwpiau o ran deilliannau myfyrwyr, camymddwyn academaidd neu faterion ansawdd? A ydym ni'n deall sut i adrodd am bryderon ynghylch hyn?
5. A ydym ni wedi adolygu ein polisiâu a'n harweiniad i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r SDGs perthnasol?
6. A yw llywodraethu'n glir o ran mynegi rolau rhanddeiliaid allweddol wrth ddatblygu EDI a chynaliadwyedd amgylcheddol a ble mae'r cyfrifoldeb cyffredinol?
7. Pa fecanweithiau sydd wedi'u rhoi ar waith i sicrhau atebolrwydd ar lefel strategol i sicrhau cydymffurfedd â deddfwriaeth gwrth-wahaniaethu (er enghraifft, Deddf Cydraddoldeb 2010)?
8. A yw'r gweithlu yn adlewyrchu amrywiaeth y corff myfyrwyr, gan ystyried nodweddion amrywiol? Pa strategaethau allwn ni eu defnyddio i recriwtio, cadw a chefnogi staff o gefndiroedd amrywiol?
9. A yw myfyrwyr yn barod ac yn gallu herio anghydraddoldebau systemig, ac a oes proses ar gyfer gwneud hyn?
10. Sut mae EEDI a chynaliadwyedd amgylcheddol yn cael eu hymgorffori'n strategol a'u hyrwyddo yn arferion beunyddiol a phrosesau gwneud penderfyniadau ein sefydliad?
11. Sut ydyn ni'n nodi'n strategol ac yn mynd i'r afael â'r heriau unigryw a wynebier gan fyfyrwyr o gefndiroedd amrywiol ac ymylol, ac i ba raddau y mae ein hamgylcheddau dysgu ac addysgu a'n systemau cymorth presennol yn galluogi eu llwyddiant yn weithredol neu'n atgyfnerthu rhwystrau presennol?

Cwestiynau myfyrion i ysgogi gwelliant

1. Pa lefel o ddealltwriaeth sydd ar draws ein darparwr ynglŷn â'r canlyniadau pendant yr ydym am eu cyflawni o ran EEDI? Sut allwn ni asesu cynnydd yn effeithiol?
2. Sut mae herio rhagfarn, stereoteipio ac ymddygiad gwahaniaethol ar draws ein sefydliad? Pa fesurau rhagweithiol y gallwn eu cymryd i nodi a mynd i'r afael â materion o ragfarn neu allgáu yn niwylliant ein sefydliad? Sut ydym ni'n monitro?
3. Sut ydym ni'n mynd i'r afael â chynaliadwyedd amgylcheddol ar hyn o bryd, a ble y gellir ei wella?
4. Pa arferion cynaliadwy sydd eisoes ar waith a beth sydd angen mwy o sylw, monitro neu adnoddau?
5. A yw cynaliadwyedd wedi'i integreiddio i'n cwricwlwm addysgol ar draws disgyblaethau?

Senarios

Senario 1: Mae darparwr wedi sefydlu Pwyllgor EDI a Chynaliadwyedd canolog i gefnogi cysondeb a chynnal ansawdd a safonau

Cyd-destun

Mae'r pwyllgor yn dwyn ynghyd uwch arweinwyr, staff (gwasanaethau academiaidd a phroffesiynol), a chynrychiolwyr myfyrwyr i sicrhau bod polisiau ac arferion bob dydd yn adlewyrchu ymrwymadau'r darparwr i gydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a chynaliadwyedd. Er enghraifft, mae'r pwyllgor yn adolygu prosesau cymeradwyo cyrsiau ac asesiadau i sicrhau eu bod yn ystyried hygyrchedd a dylunio cynhwysol.

Mae hefyd yn gweithio gyda thimau ansawdd i ymgorffori EDI, Asesiadau Effaith Amgylcheddol (EIAs), a gwiriadau cynaliadwyedd mewn templedi datblygu polisiau, adolygu cyfnodol a dilysu.

Mae polisiau'n cael eu hadolygu a'u cymeradwyo gan y pwyllgor i sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag egwyddorion EDI a deddfau gwrth-wahaniaethu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r pwyllgor hefyd yn hyrwyddo mentrau recriwtio i hwyluso a chefnogi adeiladu gweithlu amrywiol sy'n adlewyrchu amrywiaeth y corff myfyrwyr, gan helpu i sicrhau diwylliant cynhwysol. Maent yn cynnal fforymau myfyrwyr i ddarparu cyfleoedd i gyd-greu atebion, gan helpu i wneud yn siŵr bod pob myfyriwr yn teimlo ymdeimlad o berthyn ac yn gallu cyflawni eu potensial.

Ystyriaethau

- Pa swyddogaethau eraill y gallai'r pwyllgor eu goruchwyllo?
- Sut fyddai'r darparwr yn sicrhau bod y pwyllgor hwn yn effeithiol?
- Sut fyddai eu canlyniadau'n cael eu lledaenu?



**Arfer Allweddol d -
Cyfathrebu'r ymagwedd
strategol at gynnal safonau
academaidd a sicrhau
ansawdd a'r fframwaith
llywodraethu ategol**

Arfer Allweddol d

Cyfathrebu'r ymagwedd strategol at gynnal safonau academiaidd a sicrhau ansawdd a'r fframwaith llywodraethu ategol

Mae'r ymagwedd strategol at sicrhau safonau academiaidd, sicrhau ansawdd a gwella wedi'i gyhoeddi, wedi'i gyfleu'n glir ac yn hygyrch i staff, myfyrwyr a rhanddeiliaid allanol. Fe'i cefnogir gan fframwaith llywodraethu cynhwysfawr a thryloyw.

Dylai darparwyr gyfleu eu hymagwedd strategol o fewn cyfres glir a chadarn o reoliadau, polisiau a gweithdrefnau sy'n disgrifio'r mecanweithiau a'r prosesau y maent yn sicrhau ansawdd, yn sicrhau safonau academiaidd ac yn gwella profiad dysgu'r myfyrwyr drwyddynt.

Ystyried anghenion y gynulleidfa

Wrth greu, adolygu a chyhoeddi'r adnoddau hyn, dylai darparwyr ystyried yr ystod amrywiol o gynulleidfaoedd a allai fod â diddordeb yn ansawdd a safonau ei raglenni a'i ddarpariaeth academiaidd. Gall hyn gynnwys grwpiau rhanddeiliaid fel ymgeiswyr, myfyrwyr presennol, staff, cyflogwyr, cyn-fyfyrwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol. Trwy gyfathrebu clir, bydd y darparwr yn sicrhau bod y grwpiau rhanddeiliaid hyn yn deall a chyda hyder yn uniondeb y cymwysterau a gynigiant, yn enwedig os yw'r cyfathrebu'n wirioneddol 'ddwyffordd'. Mae hyn yn golygu, trwy sianeli cyfathrebu uniongyrchol, y gall rhanddeiliaid fwydo'n barhaus i'r ymagwedd strategol, gan fireinio lle bo angen a llywio fersiynau yn y dyfodol.

Gall darparwyr sicrhau bod yr ymagwedd strategol nid yn unig yn hygyrch ond hefyd yn ystyrlon i bob cynulleidfa drwy deilwra'r dull a ffocws y cyfathrebu i ddiwallu anghenion gwahanol grwpiau. Gallai hyn gynnwys creu crynodebau hygyrch ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, gan ddefnyddio cymhorthion gweledol, iaith glir a chryno, a darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu i gefnogi dealltwriaeth ac ymgysylltu. Mae dulliau effeithiol o gyfathrebu, a chydabod anghenion pob grŵp o randdeiliaid, yn hanfodol wrth sicrhau bod yr ymagwedd strategol yn cael ei ddeall gan bob parti perthnasol, gan gynnwys cynulleidfaoedd rhyngwladol.

Sefydlu fframwaith llywodraethu i gefnogi'r ymagwedd strategol

Dylai darparwyr gael fframwaith llywodraethu ar waith sy'n gynhwysfawr ac yn dryloyw. Dylai ganiatáu i'r ymagwedd strategol at wella addysg, ansawdd a safonau gael ei weithredu ar draws pob math o ddarpariaeth academaidd, a galluogi rhanddeiliaid allweddol i ddeall sut mae polisiau ac arferion perthnasol wedi'u cymhwyso'n gyson ar draws y ddarpariaeth hon. Bydd trefniadau llywodraethu hefyd yn darparu cyfleoedd i randdeiliaid fel myfyrwyr, staff academaidd a phroffesiynol, ac arbenigwyr allanol gyfrannu at ddatblygu, adolygu, cyfathrebu a chymhwyso rheoliadau, polisiau a gweithdrefnau.

Cylch gorchwyl

Ar gyfer pob corff sy'n gwneud penderfyniadau, ac ar bob lefel, o fewn strwythur llywodraethu'r darparwr, dylai cylch gorchwyl amlinellu cylch gwaith a chyfrifoldebau'r corff yn glir sy'n ymwneud ag ansawdd a safonau, gan gynnwys unrhyw gyfrifoldebau dirprwyedig. Dylai cyfrifoldebau pob bwrdd, pwyllgor neu grŵp fod wedi'u gwahaniaethu'n ddigonol i sicrhau nad yw gwahanol gyrff yn gwneud penderfyniadau gwrthgyferbyniol a bod atebolrwydd adrodd i sicrhau goruchwyliaeth sefydliadol briodol.

Cefnogi ymgysylltu

Dylai aelodaeth byrddau academaidd a phwyllgorau fod â chryfder a dyfnder arbenigedd digonol i'w galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus am ymagwedd y darparwr at ansawdd a safonau. Bydd hyn yn cynnwys cynrychiolaeth o grwpiau rhanddeiliaid allweddol ar bob lefel o'r strwythur llywodraethu. Dylid darparu hyfforddiant sefydlu a hyfforddiant priodol i bob aelod o fyrddau a phwyllgorau i gefnogi ymgysylltu a chyfraniadau effeithiol.

Sut gall llywodraethu effeithiol gefnogi cyfathrebu clir?

Corff llywodraethu darparwr sy'n gyfrifol am oruchwyllo'n strategol y trefniadau ar gyfer ansawdd a safonau; felly, ar lefel uchel, y corff llywodraethu fydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr ymagwedd strategol yn cael ei gyfleu'n effeithiol.

Mae'n debygol y bydd cyfrifoldeb am ddylunio a gweithredu'r mecanweithiau penodol y mae ansawdd a safonau'n cael eu monitro, eu cynnal a'u gwella drwyddynt yn cael ei ddirprwyo i fyrddau a phwyllgorau academaidd fel yr amlinellir mewn dogfennau llywodraethu, megis erthyglau cymdeithasu a chynllun dirprwyo'r darparwr.

Dylid rhannu penderfyniadau a chymau gweithredu a gymerir gan bob corff ymgynghorol gyda rhanddeiliaid a phartïon â chanddynt fuddiant fel rhan o'r ymagwedd strategol.

Teilwra cyfathrebu i wahanol grwpiau rhanddeiliaid

Bydd angen dealltwriaeth fanwl fwy neu lai o reoliadau, polisiau a gweithdrefnau ar wahanol rhanddeiliaid ac felly gall y darparwr gymryd dull gwahanol o gyfleu'r rhain. Mae'r tabl canlynol yn rhoi rhai enghreifftiau darluniadol o'r gwahanol fathau o rhanddeiliaid a'r wybodaeth y gallent fod ei hangen: Teilwra cyfathrebu i wahanol grwpiau rhanddeiliaid

Tabl 2: Enghreifftiau darluniadol o'r gwahanol rhanddeiliaid a'u lefelau gofynnol o ddealltwriaeth/gwybodaeth yn ymwneud â phrosesau ansawdd

Rhanddeiliad	Lefelau gwybodaeth/dealltwriaeth
Myfyrwyr	Angen bod yn ymwybodol o rôl gyffredinol ansawdd a gwella a rôl adborth myfyrwyr a phrosesau cysylltiedig - dylai gwybodaeth ymddangos yn eu llawlyfrau rhaglen neu gwrs.
Cynrychiolwyr Myfyrwyr	Angen deall eu rôl a'u perthynas â phrosesau ansawdd allweddol megis pwyllgorau rhaglen, monitro cyrsiau ac arholwyr allanol ac adolygiadau mewnol - darparu gwybodaeth a chymorth pellach o fewn deunyddiau sefydlu.
Staff academiaidd	Gwybodaeth dda am bolisiau a gweithdrefnau allweddol ar gyfer ansawdd megis dilysu, adolygu a diwygio cyrsiau, yn ogystal â rheoliadau fel y prif bwynt ymgysylltu â myfyrwyr - mae hyfforddiant ar-lein ac wyneb yn wyneb ar brosesau a rheoliadau ar gael.
Arweinwyr rhaglen	Dealltwriaeth ddyfnach o'r prosesau sydd ar waith a sut maent yn cyfrannu at hyder y darparwr yn ei safonau a'i ansawdd - hyfforddiant gorfodol, deunyddiau cyfeirio sydd ar gael yn hawdd.
Deoniaid a phenaethiaid adran	Gwybodaeth fanwl am y systemau sydd ar waith a sut maen nhw'n cyfrannu at amcanion strategol y darparwr - hyfforddiant gorfodol, deunyddiau cyfeirio sydd ar gael yn hawdd.

Continued...

Rhanddeiliad	Lefelau gwybodaeth/dealltwriaeth
Uwch arweinwyr a llywodraethwyr annibynnol	Angen cael hyder bod y darparwr yn bodloni ei ofynion rheoleiddio a bod trefniadau'n cefnogi nodau strategol y darparwr - gall dderbyn briffiau neu adroddiadau yn nodi sut mae trefniadau sicrhau a gwella ansawdd y darparwr yn ei alluogi.
Rhanddeiliaid allanol, er enghraifft darparwyr lleoliadau neu bartneriaid diwydiant	Gellir rhoi arweiniad neu hyfforddiant penodol iddynt yn ôl yr angen i'w rôl yn y broses ddysgu, addysgu ac asesu.

Cyfrifoldebau rhanddeiliaid

Mae gan staff, myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill gyfrifoldeb i sicrhau eu bod yn gyfarwydd â rheoliadau, polisiau a gweithdrefnau perthnasol. Yn aml, amlinellir y cyfrifoldeb hwn mewn telerau ac amodau, contractau, llawlyfrau, cytundebau a gwybodaeth arall sy'n sail i berthynas y rhanddeiliaid hyn â'r darparwr. Dylai darparwyr ystyried y gofynion neu'r disgwyliadau hyn cyn penderfynu sut i gyfleu'r wybodaeth hon yn effeithiol trwy gyhoeddiadau, arweiniad a hyfforddiant.

Lefel manylder

Fel egwyddor gyffredinol, bydd cyfathrebu'r ymagwedd strategol at reoli ansawdd a safonau yn canolbwyntio llai ar fanylion technegol a mwy ar y pwrpas cyffredinol a'r egwyddorion allweddol wrth i lefel ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r darparwr leihau. Er enghraifft, fel arfer bydd angen gwybodaeth dechnegol lai manwl ar gyflogwr sy'n ceisio sicrwydd ynghylch sut y caiff cymhwyster ei sicrhau o ran ansawdd nag aelod o staff academiaidd sy'n ymwneud â chynllunio'r cwrs sy'n arwain at y cymhwyster hwnnw, a bydd angen iddo ddeall yn llawn y prosesau ar gyfer cymeradwyo cwrs.

Ffigur 1: Mathau o randdeiliaid a dulliau cyfathrebu

Allwedd

- Staff sicrhau ansawdd, aelodau pwyllgorau ansawdd academiaidd a chynrychiolwyr myfyrwyr
- Myfyrwyr, staff academiaidd sy'n cefnogi sefydliadau partner dysgu, addysgu ac asesu a darparwyr lleoliadau
- Llywodraethwyr/ymddiriedolwyr, cyfarwyddwyr/swyddogion gweithredol ac arholwyr allanol
- Graddedigion, cyflogwyr a'r cyhoedd

Lefel
Ymgysylltu

Uchel iawn

Uchel

Cymedrol

Isel


Mathau o gyfathrebu

Dogfennau polisi, cyfarfodydd, arweiniad, papurau pwyllgor, sesiynau hyfforddi

Dogfennau polisi, llawlyfrau, dogfennau arweiniad wedi'u teilwra, sesiynau hyfforddi, briffiau sefydlu, cyfarfodydd tîm, cylchlythyrau/porthiant

Adroddiadau, briffiau, cyflwyniadau, sesiynau pwyllgor, holi ac ateb

Dogfennau trosolwg/tudalennau gwe, eitemau newyddion, datganiadau



[Lawrlwythwch y diagram sy'n addas ar gyfer cyflwyniadau yma](#)

Categoreiddio grwpiau rhanddeiliaid

Mae Ffigur 1 uchod yn categoreiddio gwahanol grwpiau rhanddeiliaid yn ôl eu perthynas eang â fframwaith ansawdd darparwr. Mae'r grwpiau hyn yn cwmpasu ystod o enwau rolau gwahanol a all fod ar waith mewn darparwyr gwahanol.

Cyfeirir at y rhai sy'n gyfrifol am ddylunio a gweithredu'r dull hwn fel cyfranwyr. Mae cynrychiolwyr myfyrwyr, staff ac eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r profiad dysgu yn y categori defnyddwyr. Efallai y bydd gan y grwpiau hyn arbenigedd mewn ansawdd a safonau ac felly bydd iaith fwy technegol mewn cyfathrebu yn briodol.

Mae'r rhai sydd â goruchwyliaeth lefel uchel o'r ymagwedd strategol yn cael eu dangos fel gwarcheidwaid, tra bod y rhai sydd â diddordeb ehangach yn ansawdd a safonau dyfarniadau darparwr yn fuddiolwyr. Gall unigolion ddal rolau gwahanol ar yr un pryd sy'n eu gosod o fewn categorïau lluosog (er enghraifft, myfyriwr sydd hefyd yn aelod o'r corff llywodraethu). Bydd y defnydd o Saesneg clir yn arbennig o bwysig i grwpiau sy'n llai cyfarwydd â strwythur a gweithrediadau'r darparwr o ddydd i ddydd, ac efallai y bydd angen esboniad ychwanegol ar rai termau er mwyn sicrhau eglurder i gynulleidfaoedd ehangach.

Dylai darparwyr ystyried pa wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd fel mater o drefn ac a yw ei gynllun cyhoeddi yn cyd-fynd â chodau llywodraethu perthnasol a deddfwriaeth berthnasol, er enghraifft, gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Wrth benderfynu ar ei ddull o gyhoeddi cofnodion y bwrdd a phwyllgorau a dogfennau eraill i gefnogi prosesau llywodraethu tryloyw, bydd y darparwr yn ystyried a oes unrhyw risgiau i'w weithrediadau busnes neu ystyriaethau eraill sy'n gofyn am ddileu neu olygu gwybodaeth sensitif.

Ystyriaethau ar gyfer lledaenu gwybodaeth am ansawdd a safonau

Rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau

Pan gyflwynir rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau newydd neu ddiwygiedig, dylai darparwyr gael dulliau clir ac effeithiol o gyfleu'r newidiadau hyn i bob rhanddeiliad a darparu cymorth ac arweiniad priodol yn ôl yr angen i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Bydd hyn yn arbennig o bwysig gyda phwyllgorau a gweithgorau yn adrodd yn ôl i grwpiau rhanddeiliaid. Gall darparwyr ddefnyddio dulliau cyfathrebu unffordd fel porthiant newyddion neu e-byst atgoffa o brosesau allweddol ar adegau penodol, ond hefyd dulliau dwyffordd fel sesiynau briffio, cyfarfodydd tîm, a sesiynau Holi ac Ateb - bydd dangos eich bod yn gwrando ar unrhyw faterion (gyda rheoliadau newydd, er enghraifft) yn helpu i feithrin diwylliant ansawdd iach.

Dylai'r corff llywodraethu feddu ar wybodaeth a dealltwriaeth ddigonol o lywodraethu academiaidd i sicrhau ei hun o ansawdd a safonau cynnig academiaidd y darparwr. Gall hyfforddiant wedi'i deilwra ar gyfer llywodraethwyr annibynnol sydd â gwybodaeth gyfyngedig am addysg uwch yn y DU gyfrannu'n gadarnhaol at effeithiolrwydd y corff llywodraethu.

Dylid teilwra'r ffordd y mae rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau'n cael eu datblygu, eu cymeradwyo a'u lledaenu i gyd-fynd â maint, siâp a chyd-destun pob darparwr. Yn dibynnu ar y wybodaeth i'w rhannu a'r grwpiau rhanddeiliaid a dargedir, gellir cyfleu elfennau o'r ymagwedd strategol trwy fecanweithiau mewnol, megis llawlyfr ansawdd neu safle mewnwyd, neu efallai y bydd yn rhaid eu rhyddhau'n gyhoeddus trwy wefan darparwr i gydymffurfio â deddfwriaeth neu arweiniad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA), er enghraifft. Mae sicrhau dull systematig o gyhoeddi yn hanfodol wrth sicrhau bod pob rhanddeiliad yn ymgysylltu â'r wybodaeth ddiweddaraf.

Dylai pob dogfen gyhoeddedig sy'n rhan o fframwaith ansawdd darparwr gynnwys y dyddiad y'i cymeradwywyd a chan pa gorff sy'n gwneud penderfyniadau. Dylai rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau fanylu ar y prosesau ar gyfer eu deddfu ac amlinellu pwy sy'n gyfrifol am eu harolygu, gan gynnwys trefniadau ar gyfer adolygu rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol wrth gefnogi ymagwedd strategol y darparwr.

Hyfforddi a datblygu

Mae hyfforddiant a datblygiad yn bwysig wrth gefnogi dealltwriaeth ac ymgysylltiad â'r ymagwedd strategol i wahanol gynulleidfaoedd, er enghraifft cymorth i staff academiaidd sy'n ymgymryd â rolau newydd a hefyd i gynrychiolwyr myfyrwyr. Gellir cyflwyno a/neu gyfeirio gwybodaeth graidd trwy weithgareddau sefydlu a'i hehangu yn ddiweddarach yn y flwyddyn academiaidd. Gellir cyflwyno sesiynau datblygiad proffesiynol sy'n canolbwyntio ar agweddau allweddol ar yr ymagwedd strategol trwy weithdai, seminarau, neu weminarau i fynd i'r afael â meysydd penodol o sicrhau ansawdd, gwella a llywodraethu ar gyfer cydweithwyr academiaidd.

Gellid cysylltu'r rhain hefyd â phrosesau ansawdd allweddol o fewn y cylch adolygu ansawdd mewnol ac allanol a fframweithiau megis monitro blynyddol, ail-ddilysu ac adolygu cyfnodol i helpu i roi'r ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn ei gyd-destun. Gall sesiynau sydd wedi'u teilwra i anghenion a diddordebau cynrychiolwyr myfyrwyr sicrhau eu dealltwriaeth a'u hymgysylltiad â'r meysydd hyn, gan gofleidio'r syniad o weithio mewn partneriaeth i wella safonau academiaidd ac ansawdd y profiad dysgu.

Efallai y bydd angen arweiniad a chymorth ychwanegol i sicrhau bod yr holl rhanddeiliaid, waeth beth fo'u gefndiroedd neu brofiadau, yn gallu deall ymagwedd strategol y darparwr yn llawn. Gall hyn gynnwys myfyrwyr neu staff sydd â phrofiad cyfyngedig o uwch a/neu drydyddol yn y DU

addysg, y rhai ag anghenion dysgu amrywiol, neu unigolion sydd â phrofiad diweddar cyfyngedig gyda lleoliadau addysg. Yn ogystal, bydd cyfleoedd i bob grŵp rhanddeiliaid ofyn cwestiynau i staff profiadol yn helpu i sicrhau eu dealltwriaeth.

Cyfathrebu trefniadau ar gyfer ansawdd a safonau mewn gwahanol gyd-destunau

Bydd cyd-destun darparwr unigol yn dylanwadu ar ei ymagwedd strategol a'i strategaeth gyfathrebu. Gall darparwyr bach neu arbenigol, er enghraifft, ddibynnu'n gryfach ar ddulliau cyfathrebu wyneb yn wyneb, tra gall darparwyr mwy ffafrio defnyddio llwyfannau digidol, fel pyrth ac apiau, i ddosbarthu gwybodaeth i wahanol grwpiau rhanddeiliaid.

Dylai darparwyr heb bwerau dyfarnu graddau sicrhau bod eu dull o sicrhau a gwella ansawdd yn bodloni gofynion cyrff dilysu neu ddyfarnu ac unrhyw sefydliadau partner. Yn yr un modd, dylai darparwyr sicrhau, lle bo'n berthnasol, bod prosesau ansawdd yn bodloni gofynion asiantaethau'r sector, rheoleiddwyr a chyrff PSRB. Dylid hefyd ddogfennu a chyfleu gwybodaeth yn glir i randdeiliaid ynghylch pa gyrff rheoleiddio, dilysu neu achredu sy'n gweithio gyda'r darparwr a natur y partneriaethau hyn.

Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i ddarparwyr sy'n gweithredu mewn gwahanol gyd-destunau rhyngwladol addasu eu hymagwedd at ansawdd a safonau i fodloni gofynion rheoleiddwyr cenedlaethol yn y rhanbarthau lle maent yn gweithredu. Mewn achosion o'r fath, dylent sicrhau bod unrhyw eithriadau penodol i bolisiâu a rheoliadau yn seiliedig ar resymeg glir, wedi'u diffinio a'u deall yn dda, ac nad ydynt yn peryglu safonau academiaidd nac ansawdd y ddarpariaeth gydweithredol.

Gall maint a chymhlethdod y fframwaith llywodraethu amrywio hefyd ar draws gwahanol fathau o ddarparwyr. Dylai'r darparwr sicrhau bod graddau ei fframwaith ansawdd a llywodraethu yn gymesur â maint a siâp ei ddarpariaeth AU a'i fod yn ddigonol i gynnal trosolwg o ansawdd a safonau.

Cwestiynau myfyrrio

1. A yw ein dull o reoli ansawdd a safonau yn cyd-fynd â chenhadaeth ac amcanion strategol ein darparwr?
2. Pwy sy'n gyfrifol am fynegi, cymeradwyo a chyfleu'r ymagwedd strategol i wahanol gynulleidfaoedd rhanddeiliaid?
3. A yw ein hymagwedd strategol wedi'i fynegi'n glir mewn ffordd sy'n ddealladwy i ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys staff, myfyrwyr, cyflogwyr, arholwyr allanol a'r cyhoedd yn gyffredinol?
4. A yw ein strategaethau, rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau wedi'u datblygu ar y cyd â staff, myfyrwyr a rhanddeiliaid allanol?
5. A yw holl aelodau ein byrddau a'n pwyllgorau academiaidd (gan gynnwys aelodau sy'n fyfyrwyr) yn ymgysylltu ac yn gallu cyfrannu at drafodaethau am ansawdd a safonau?

Cwestiynau myfyrrio i ysgogi gwelliant

1. A yw ein hymagwedd strategol yn hyrwyddo gwella ansawdd a safonau y tu hwnt i fesurau sylfaenol, gan ystyried arfer da yn y dirwedd AU ehangach?
2. Sut mae staff yn cael eu sefydlu a'u cefnogi mewn perthynas â'n trefniadau sicrhau a gwella ansawdd mewn ffordd sy'n berthnasol i'w rôl?
3. Sut mae cynrychiolwyr myfyrwyr yn cael eu sefydlu a'u hyfforddi i ymgysylltu'n effeithiol â threfniadau sicrhau a gwella ansawdd?
4. Sut ydym ni'n parhau i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, a chefnogi defnydd o reoliadau, polisïau a phrosesau gan staff, myfyrwyr a rhanddeiliaid allanol, a pha brosesau sydd gennym ni ar waith i fonitro hyn?
5. A oes cyfleoedd ar gyfer cyfathrebu dwyffordd rheolaidd â myfyrwyr, staff a rhanddeiliaid eraill a allai lywio datblygiad ein hymagwedd strategol yn y dyfodol?

Senarios

Senario 1: Mae darparwr yn adolygu ei weithrediad o bolisi newydd

Cyd-destun

Ddeuddeg mis yn ôl, cwblhaodd darparwr ailddatblygiad o'i bolisi asesu ac adborth, a arweiniodd at welliannau i brosesau a rheoliadau allweddol. Mae'r prosesau a'r rheoliadau wedi'u diweddarau hyn wedi bod yn fyw ers y tri mis diwethaf. Mewn adolygiad adrannol diweddar, daeth yn amlwg nad yw rhai rhaglenni'n dilyn y polisi a'r rheoliadau newydd, gan arwain at arferion gwahanol ar draws rhaglenni.

Mae'r Tîm Ansawdd yn lansio adolygiad o weithrediad y rheoliadau newydd a'r polisiâu ategol. Mae'r adolygiad yn dechrau trwy gynnull gweithgor sy'n dwyn ynghyd gynrychiolwyr o bob un o'r tair cyfadrn y mae adrannau academiaidd wedi'u trefnu iddynt. Yna mae'r gweithgor hwn yn siarad ag arweinwyr adrannau ac academyddion mewn cyfres o gyfarfodydd bord gron ymgynghorol i gasglu gwybodaeth am bwy sy'n defnyddio'r hen reoliadau a pholisiâu ac yn bwysicach fyth pam.

Mae'r Tîm Ansawdd yn deall bod fframio'r adolygiad hwn yn bwysig ac yn canolbwyntio ar ymgynghori a chasglu gwybodaeth, yn hytrach nag 'ymchwiliad'. Mae hyn i liniaru canfyddiad o'r 'canolog' yn ceisio gorfodi ffyrdd o weithio ar adrannau a thimau lleol.

Trwy drafodaeth ddidwyll ac agored, daw i'r amlwg na all un adran ddefnyddio'r polisi asesu diwygiedig yn llawn gan ei fod yn gwrthdaro â'r gofynion a osodwyd gan y PSRB sy'n achredu un o'u cyrsiau. Oherwydd natur hynod ymreolaethol adrannau, buont yn ceisio eu hatebion eu hunain yn hytrach nag ymgysylltu â thîm y prosiect a newidiodd y rheoliadau flwyddyn yn ôl. Roedd tîm y prosiect wedi cymryd yn ganiataol, gan eu bod wedi ymgynghori ag arweinwyr cyfadrn, bod pob adran yn fodlon ar y polisiâu a'r rheoliadau newydd ac yn eu gweithredu'n ddi-fai.

Ystyriaethau

- Beth fydddech chi'n ei wneud yn y sefyllfa hon?
- Beth yw'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r senario hwn a sut y gallech chi eu lliniaru?
- Pwy sydd angen bod yn ymwybodol o'r mater hwn a phwy sy'n gyfrifol am ei ddatrys?
- Sut fydddech chi'n sicrhau bod camau gweithredu a nodwyd yn cael eu monitro a'u gwerthuso?



Arfer Allweddol e - Monitro a gwerthuso'r ymagwedd strategol

Arfer Allweddol e

Monitro a gwerthuso'r ymagwedd strategol

Caiff yr ymagwedd strategol ei monitro a'i gwerthuso'n rheolaidd.

Dylid monitro'r ymagwedd strategol a gymerir gan ddarparwyr i sicrhau safonau academiaidd a gwella ansawdd yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n llwyddiannus a'i ymgorffori ar draws y sefydliad. Gellir ei werthuso hefyd yn gyfnodol i sicrhau ei fod yn parhau i gael effaith gadarnhaol yn erbyn ei amcanion, a bennir gan bob darparwr a/neu sy'n adlewyrchu gofynion unrhyw reoleiddiwr/corff ariannu.

Mae'r broses hon yn wahanol i'r prosesau monitro ac adolygu rheolaidd neu seiliedig ar risg ar gyfer y ddarpariaeth (gweler Egwyddor 5 - Monitro, gwerthuso a gwella darpariaeth) ond efallai y bydd lle i gynnwys yr adolygiad o strategaeth mewn unrhyw systemau monitro a gwerthuso mwy.

Gellid ystyried y pwyntiau canlynol pan fydd darparwr yn ymgymryd â'r math hwn o fonitro a gwerthuso:

- bod unrhyw systemau adolygu a fabwysiadir yn gymesur â'r nod - gwerthuso effaith dull sicrhau ansawdd strategol - nid ydynt yn feichus, ac maent yn ddeinamig, yn llyfn, yn ystwyth ac yn ymatebol
- cymerir camau bwriadol i ymgysylltu a chynnwys myfyrwyr, staff ac arbenigedd allanol yn y broses. Ystyrir canlyniadau ac effaith y gweithgareddau hyn ar lefel y darparwr i yrru gwerthuso a gwella ar draws y sefydliad
- cesglir a dadansoddir data ansoddol a meintiol perthnasol. Gall y data hwn edrych ar ansawdd profiad y myfyrwyr ac ansawdd y canlyniadau. Gweler Egwyddor 4 - Defnyddio data i lywio a gwerthuso ansawdd
- cynhelir adolygiad tebyg lle mae ymagwedd strategol darparwr hefyd yn cael ei gymhwyso i elfennau o'i weithgareddau sy'n cael eu his-gontractio i neu'n cael eu cyflawni gan bartneriaid neu sefydliadau eraill. Gweler Egwyddor 8 - Gweithredu partneriaethau gyda sefydliadau eraill
- gwirio a yw'r ymagwedd strategol yn adlewyrchu gweledigaeth a chenhadaeth y sefydliad a'r berthynas rhwng ymchwil ac addysg i gefnogi dysgu ac addysgu. Gweler Egwyddor 11 - Addysgu, dysgu ac asesu, Arfer Allweddol a.

Amserlenni

Mae gwerthuso'n galluogi asesiad ôl-weithredol, tymor hwy o ganlyniadau'r ymagwedd strategol, a allai gael ei gynnal yn fewnol a/neu gan werthuswyr annibynnol allanol. Gellir cynnal gwerthusiad o bryd i'w gilydd fel rhan o gylchred ansawdd neu gellir ei gychwyn mewn ymateb i ffactorau a nodwyd trwy fonitro rheolaidd. Dylid monitro a gwerthuso effaith arfaethedig unrhyw gamau gweithredu a gymerir fel y gellir mesur llwyddiant, ac addasu unrhyw ymyriadau yn ôl yr angen.

Canlyniadau disgwylidig

